***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 860 (Cy. 199)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU
# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Gorffennaf 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 83(2B) a (5), 84(b) a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 196(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2021 a deuant i rym ar 1 Medi 2021.

### Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

**2.** Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**3**) wedi eu diwygio fel y darperir ar eu cyfer yn rheoliadau 3 i 6.

### Diwygiad i reoliad 2

**3.** Yn y diffiniad o "cynllun addysg personol" yn rheoliad 2(1)(**4**), yn lle "yn rheoliad 5(b)(ii)" rhodder "gan adran 83(2A) o Ddeddf 2014(**5**)".

(**1**) 2014 dccc 4. *Gweler* adran 197(1) am y diffiniad o "rheoliadau". Mewnosodwyd adran 83(2A) i (2D), ac mae adran 83(5) ac is-adrannau eraill o adran 83 wedi eu diwygio, gan adran 16 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2). Diwygiwyd adran 196(6) gan baragraff 24(1) a (4) o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

(**2**) Y rhain yw'r rheoliadau cyntaf a wneir o dan adran 83(2B). Mae'r cyfeiriad yn adran 196(6) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).

(**4**) Mae diwygiadau i reoliad 2 nad ydynt yn berthnasol.

(**5**) Mewnosodwyd adran 83(2A) gan adran 16 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

**Diwygiad i reoliad 3**

**4.** Yn rheoliad 3, yn lle "Nid yw'r Rheoliadau hyn" rhodder "Nid yw Rhannau 2 i 10".

**Mewnosod Rhan 1A**

**5.** Ar ôl rheoliad 3 mewnosoder—

## "RHAN 1A

### PLANT NAD OES CYNLLUN ADDYSG PERSONOL I GAEL EI LUNIO AR EU CYFER

**3A.** Rhagnodir y categorïau a ganlyn o blentyn sy'n derbyn gofal at ddibenion adran 83(2B) o Ddeddf 2014—

(a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**6**) oni bai bod y plentyn yn dod o fewn rheoliad 56;

(b) unrhyw blentyn y mae'r amgylchiadau a nodir yn rheoliad 62(2) yn gymwys mewn perthynas ag ef;

(c) unrhyw blentyn nad yw ond yn derbyn gofal oherwydd ei fod ar remánd i lety cadw ieuenctid."

**Diwygiadau i reoliad 5**

**6.** Yn rheoliad 5—

(a) hepgorer paragraff (1)(b)(ii);

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i'r cynllun addysg personol (gweler adran 83(2A) i (2D) o Ddeddf 2014) gynnwys yr wybodaeth a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 2."

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

15 Gorffennaf 2021

(**6**) 2002 p. 38.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1818 (Cy. 261)) ("Rheoliadau 2015") yng ngoleuni diwygiadau i adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("Deddf 2014") a wnaed gan adran 16 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2). Mae rheoliad 6 yn dileu'r gofyniad yn Rheoliadau 2015 fod cynllun gofal a chymorth yn cynnwys cynllun addysg personol, oherwydd bod y gofyniad hwnnw wedi ei fewnosod yn adran 83 o Ddeddf 2014. Mae rheoliad 5 yn rhagnodi'r categorïau o blant sy'n derbyn gofal nad oes cynllun addysg personol i gael ei lunio ar eu cyfer fel rhan o'u cynllun gofal a chymorth. Y categorïau a ragnodir yw'r rheini nad oedd cynllun addysg personol yn ofynnol ar eu cyfer gan Reoliadau 2015. Nid yw'r materion y mae rhaid eu cynnwys mewn cynllun addysg personol wedi newid.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.